
BBC

# THE STORY OF WALES



## CYMRU

## AROLWG Y TÎM RHEOLI
2011/12

01 Cyflwyniad y cyfarwyddwr
02 Crynodeb dwy funud
04 Perfformiad y gwasanaethau
12 Strategaeth y dyfodol
17 Prif flaenoriaethau'r flwyddyn nesaf
18 Manylion cyswllt
19 Y tîm rheoli yng nghymru

**Llun ar y clawr**

Ail greu Harri Tudur yn glanio ger Mill Bay, Sir Benfro ar gyfer cyfres nodwedd BBC Cymru Wales *The Story of Wales*

# CYFLWYNIAD Y CYFARWYDDWR



"Ein haddewid i'r gwylwyr a'r gwrandawyr yw y bydd BBC Cymru Wales yn ddarlledwr beiddgar, uchelgeisiol – wedi ei ymrwymo i weithio gydag eraill i wneud gwahaniaeth gwirioneddol, nid yn unig i gynulleidfaoedd, ond i Gymru ei hun."

Bu hon yn flwyddyn arwyddocaol i'r byd darlledu yng Nghymru am sawl rheswm. Partneriaeth newydd rhwng S4C a'r BBC, agoriad canolfan cynyrchiadau drama fwyaf y DU ym Mhorth y Rhath, her ariannol setliad newydd ffi'r drwydded, a'r gyfres deledu gyntaf am hanes Cymru ers chwarter canrif.

Mewn cyfnod gyda chymaint o her a dadlau cyhoeddus, mae'r bobl sy'n gwneud ein rhaglenni – yn fewnol neu ar draws y sector annibynnol – wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod ein cynulleidfaoedd yn parhau i fod yn flaenaf ac yn ganolog inni.

Bu eu llwyddiant – yma yng Nghymru ac ar draws rhwydweithiau radio a theledu'r BBC – yn anhygoel a chaiff ei grisialu i'r dim yn yr arolwg hwn. Caiff ei adlewyrchu yn y ffigurau cynulleidfaoedd teledu uchaf yng Nghymru ers wyth mlynedd, y lefelau cymeradwyaeth cynulleidfa uchaf unrhyw le yn y DU, effaith aruthrol *The Story of Wales*, ac adnewyddiad *Pobol y Cwm* a *Casualty* yn y stiwdios newydd ym Mhorth y Rhath.

Ond nid oes awgrym o laesu dwylo ac rydym yn benderfynol o gael effaith fwy fyth dros y blynyddoedd nesaf. Ein haddewid i'r gwylwyr a'r gwrandawyr yw y bydd BBC Cymru yn ddarlledwr beiddgar, uchelgeisiol – wedi ei ymrwymo i weithio gydag eraill i wneud gwahaniaeth gwirioneddol, nid yn unig i gynulleidfaoedd, ond i Gymru ei hun.



**Rhodri Talfan Davies**
Cyfarwyddwr, BBC Cymru Wales

# CRYNODEB DWY FUNUD

## 92

Sgôr gwerthfawrogiad y gynulleidfa ar gyfer *The Story of Wales*, yr ail uchaf ar gyfer unrhyw gyfres deledu ar BBC One (ar ôl *Frozen Planet*)

## 11 awr

Yr amser y mae gwrandawyr ar gyfartaledd yn ei dreulio yn gwrando ar BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru bob wythnos

## 2,380,000

Y nifer o ddefnyddwyr unigryw wythnosol o wefannau BBC Cymru

## 10,770,000

Cynulleidfa BBC One yn y DU ar gyfer *Doctor Who* ar Ddydd Nadolig 2011

### Cymeradwyaeth i'r BBC yng Nghymru (sgôr cymedrig allan o 10)

Ffynhonnell: ART/Kantar

**Argraff gyffredinol o'r BBC**

| | |
|---|---|
| 09/10 | 6.86 |
| 10/11 | 7.01 |
| 11/12 | 7.14 |

**Gwerth am arian ffi'r drwydded**

| | |
|---|---|
| 09/10 | 5.08 |
| 10/11 | 5.44 |
| 11/12 | 5.63 |

### Cyrhaeddiad wythnosol teledu

Ffynhonnell BARB (yn seiliedig ar gyrhaeddiad 15 munud olynol)

**Rhaglenni Saesneg BBC Cymru Wales***

| | |
|---|---|
| 09/10 | 885,000 |
| 10/11 | 945,000 |
| 11/12 | 940,000 |

**BBC Cymru Wales ar S4C**

| | |
|---|---|
| 09/10 | 167,000 |
| 10/11 | 190,000 |
| 11/12 | 183,000 |

* Mae'r ffigyrau a roir uchod ar gyfer 2009/10 a 2010/11 ychydig yn wahanol i'r rhai a gafwyd yn Arolwg Blynyddol Cymru yn y gorffennol gan fo newid wedi bod yn y fethodoleg gyfrifo a ddefnyddir ar gyfer cyrhaeddiad wythnosol yng Nghymru dros wythnos.

## Y Deg Cyfres Fwyaf Poblogaidd a'r Pum Rhaglen Unigol Fwyaf Poblogaidd 2011/12

Ffynhonnell: BARB

| Cyfresi Saesneg BBC Cymru Wales | |
|---|---|
| The Story of Wales | 317,000 |
| Vets 24/7 | 288,000 |
| BBC Wales Today (6.30yh) | 287,000 |
| Tenby 24/7 | 278,000 |
| Helicopter Rescue | 265,000 |
| Rhys to the Rescue | 245,000 |
| Weatherman Walking | 232,000 |
| X-Ray | 213,000 |
| Coming Home | 205,000 |
| BBC Wales Today (10.25yh) | 200,000 |
| **Rhaglenni Saesneg BBC Cymru Wales** | |
| Sport Wales: Tribute to Gary Speed | 353,000 |
| Shane | 264,000 |
| Max Boyce: The Road to Treorchy | 248,000 |
| Max Boyce: Live at Treorchy... Again | 200,000 |
| Children in Need in Wales | 180,000 |

| Cyfresi BBC Cymru Wales ar S4C | |
|---|---|
| Pobol y Cwm (Gwe) | 95,000 |
| Pobol y Cwm (Mer) | 90,000 |
| Pobol y Cwm (Iau) | 89,000 |
| Pobol y Cwm (Maw) | 87,000 |
| Pobol y Cwm (Llun) | 85,000 |
| Y Clwb Rygbi | 58,000 |
| Eisteddfod Genedlaethol: Mwy o'r Maes | 42,000 |
| Y Clwb Rygbi Rhyngwladol | 32,000 |
| Pawb a'i Farn | 29,000 |
| Eisteddfod Genedlaethol: Seremonïau | 29,000 |
| **Rhaglenni BBC Cymru Wales ar S4C** | |
| Pobol y Cwm Nadolig | 90,000 |
| Eisteddfod Genedlaethol: Y Gymanfa Ganu | 70,000 |
| Eisteddfod Genedlaethol: Cyngerdd Agoriadol | 58,000 |
| Only Men Aloud – Adre'n Ôl | 50,000 |
| Eisteddfod Genedlaethol: Cyngerdd Cloi | 41,000 |

## Cyrhaeddiad Wythnosol Radio (Oedolion)

Ffynhonnell: RAJAR/RSMB/Ipsos MORI

### BBC Radio Wales

| | |
|---|---|
| 09/10 | 411,000 |
| 10/11 | 468,000 |
| 11/12 | 471,000 |

### BBC Radio Cymru

| | |
|---|---|
| 09/10 | 147,000 |
| 10/11 | 150,000 |
| 11/12 | 138,000 |

## Gwefan: Defnyddwyr Unigryw Wythnosol

Ffynhonnell: BBC

### Gwefannau Saesneg BBC Cymru Wales

2,380,000

### Gwefannau Cymraeg BBC Cymru Wales

21,000

Rhagor o ffeithiau a gwybodaeth ar gael ar bbc.co.uk/cymru/gwybodaeth

## Rhaglenni Saesneg – BBC One Wales/BBC Two Wales

Mae rhaglenni teledu Saesneg ar BBC One a BBC Two Wales unwaith eto wedi cyrraedd bron i filiwn o wylwyr bob wythnos gyda deg o'n cyfresi yn denu 200,000 o wylwyr neu fwy.

Uchafbwynt nodedig oedd *The Story of Wales* a gyflwynwyd gan Huw Edwards – hanes Cymru mewn chwe pennod yn cwmpasu dros 30,000 o flynyddoedd. Denodd y gyfres gynulleidfa o dros 300,000 ar gyfartaledd, a ffigyrau gwerthfawrogiad cynulleidfa uwch nag erioed. Cynhyrchwyd y gyfres gan Green Bay Media ac elwodd ar bartneriaethau cryf gyda'r Brifysgol Agored, Amgueddfa Cymru a Cadw.

Cafodd cynhyrchiad National Theatre Wales, *The Passion in Port Talbot* gyda Michael Sheen hefyd groeso aruthrol. Tyrrodd 10,000 o bobl ar lan y môr Port Talbot i weld y croeshoelio – uchafbwynt y ddrama dridiau – a daeth BBC Cymru â hyn i gynulleidfaoedd ledled Cymru gyda rhaglen ddogfen awr o hyd.

Gwelodd y flwyddyn *Week In, Week Out* yn taro'r marc gydag ymchwiliad deifiol i systemau cymwysterau Prifysgol Cymru. Taniodd y rhaglen argyfwng llywodraethu o fewn y sector prifysgolion, gydag oblygiadau pell-gyrhaeddol.

1



1. Huw Edwards yn ffilmio *The Story of Wales*
2. Tenby 24/7
3. Rhaglen am Tŷ Hafan oedd *Beautiful Lives*

Edrychodd nifer o gyfresi poblogaidd ar dirwedd a phobl Cymru: datgelodd *Tenby 24/7* wythnos ym mywyd y dref wyliau yng ngorllewin Cymru, tyrchodd y bythol boblogaidd *Coming Home* i achau Neil Kinnock ac Alison Steadman, a llwyddodd *Beautiful Lives* i gyfleu bywydau cleifion yn hosbis plant Tŷ Hafan.

Bu sawl uchafbwynt yn ein harlwy chwaraeon, gan gynnwys llwyddiant tîm rygbi Cymru yng Nghwpan y Byd a'u buddugoliaeth yn ennill y Gamp Lawn. Dangoswyd y cyfan yn ein rhaglenni *Scrum V Specials* sydd wedi dod yn rhan annatod o'n harlwy i gefnogwyr rygbi Cymru. Dilynodd *Sport Wales* ymgyrch dyrchafiad Dinas Abertawe i'r Uwch Gynghrair a'u llwyddiant wedi hynny, ac fe ddarlledwyd rhaglen deyrnged yn dilyn marwolaeth Gary Speed.





## BBC Cymru Wales ar y rhwydwaith

Dyma'r flwyddyn pan agorodd Porth y Rhath ei drysau am y tro cyntaf ac i *Casualty* gyrraedd Cymru – gan danlinellu lle Cymru fel canolfan gynhyrchu drama BBC o'r radd flaenaf.

Buan yr ymgartrefodd drama boblogaidd nos Sadwrn BBC One ym Mhorth y Rhath, gan ymuno â nifer o ddramâu oedd eisoes wedi eu sefydlu yng Nghaerdydd. Cafwyd ail gyfres o *Upstairs Downstairs* a pharhaodd *Doctor Who* i ennill canmoliaeth gref a chynulleidfa selog – denodd y rhaglen Nadolig arbennig bron i 11 miliwn o wylwyr. Bu'r gyfres olaf o *The Sarah Jane Adventures* mor boblogaidd ag erioed – teyrnged addas i'r diweddar Elisabeth Sladen.

Taniodd ail gyfres *Sherlock* (gan Hartswood Films) ddychymyg y gynulleidfa a'r beirniaid fel ei gilydd, gan ddenu cynulleidfaoedd o dros 10 miliwn o wylwyr. A drama-ddogfen a wnaed gan Prospect Cymru am fywyd cynnar Shirley Bassey oedd uchafbwynt tymor *Mixed Race* BBC Two.

Dechreuodd y tîm dramâu radio ar addasiad byw o *The Diary of Samuel Pepys* gan Hattie Naylor. Fe wnaethant hefyd gynhyrchu cymysgedd o ddramâu clasurol a chyfoes, gan gynnwys penodau arbennig o *Torchwood* (a lansiwyd yn wreiddiol ar gyfer y teledu), a llwyddodd y rhain i ennyn diddordeb gan gynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU a thu hwnt.

Cynhyrchodd tîm ffeithiol BBC Cymru raglenni dogfen unigol am gyfres o destunau gan gynnwys *Britain's Royal Weddings*, *The Secrets of Scott's Hut* (dilynodd y cyflwynydd Ben Fogle ôl troed siwrnai Capten Scott i'r gwersyll cychwyn yn yr Antarctig), ac *A Home For Maisie* a ddilynodd gwpl arbennig oedd yn gofalu am ferch wyth oed a fabwysiadwyd yn aflwyddiannus ddwywaith.

Arweiniodd *Crimewatch* yn ei gartref newydd yn BBC Cymru at raglen *Crimewatch Roadshow* yn ogystal â rhaglen arbennig o *Crimewatch* yn dilyn euogfarnu'r dyn a lofruddiodd y ferch 13 oed, Milly Dowler.

Cynhyrchodd tîm rhaglenni radio nodwedd y rhwydwaith ymchwiliad treiddgar ar gyfer BBC Radio 4 gan gyflwynydd *Today*, John Humphrys, i safonau addysg yng Nghymru. Tynnai'r rhaglen sylw at y ffyrdd y mae datganoli wedi arwain at wahaniaethau sylweddol mewn polisïau a chanlyniadau rhwng Cymru a Lloegr.

Darlledwyd cystadleuaeth *BBC Canwr y Byd Caerdydd* ar BBC Radio 3 a BBC Four unwaith eto a dangoswyd y rownd derfynol ar BBC Two. Cynhyrchodd ein tîm cerddoriaeth gyfres o gyngherddau a berfformiwyd yn ystod Gŵyl Lenyddol y Gelli gan gyflwyno artistiaid a repertoire gwych i gynulleidfa frwdfrydig.



## BBC Cymru Wales ar S4C

Mae rhaglenni BBC Cymru ar gyfer S4C yn parhau i chwarae rhan greiddiol yn amserlen y sianel. Ar gyfartaledd gwyliodd 183,000 o bobl raglenni BBC Cymru ar gyfer S4C bob wythnos yn 2011/12.

Fis Rhagfyr 2011, symudodd *Pobol y Cwm* i stiwdios Porth y Rhath, a chaiff bellach ei ddarlledu mewn manylder uwch (HD). Yn ystod y flwyddyn deliodd *Pobol y Cwm* yn sensitif â nifer o destunau anodd – gan gynnwys trais rhywiol yn erbyn dynion, alcoholiaeth, a beichiogrwydd ymysg merched ifanc. Gwobrwywyd y straeon dirdynnol hyn gyda chynulleidfaoedd cryf a chyson.

Rhoddodd y tîm *Newyddion* sylw estynedig i nifer o straeon mawr gydol y flwyddyn gan gynnwys trychineb pwll glo Gleision; marwolaeth ddisymwth Gary Speed; cofio 10 mlwyddiant trychineb 9/11 yn Efrog Newydd; y Briodas Frenhinol yn Ebrill ynghyd â dadansoddiad trylwyr o'r argyfwng economaidd parhaus.

Darparwyd sylw cynhwysfawr i etholiad y Cynulliad yn ogystal â dadansoddi awdurdodol o faterion seneddol ac Ewropeaidd. Yn cwblhau'r arlwy newyddion a materion cyfoes eang roedd y rhaglen gylchgrawn wleidyddol *CF99*, y gyfres materion cyfoes *Taro Naw* a'r rhaglen drafod, *Pawb a'i Farn*.

Gyda Chymru yn dathlu buddugoliaeth y Gamp Lawn a pherfformiad eithriadol yng Nghwpan Rygbi'r Byd, mae rygbi'n parhau i fod yn ganolog i'r arlwy. Llwyddodd *Y Clwb Rygbi Rhyngwladol* i gyfleu'r cyffro y mae tîm Cymru'n ei greu ar hyn o bryd ac ar ôl ei ymddangosiad olaf dros Gymru yn erbyn Awstralia fis Rhagfyr, ymunodd Shane Williams â thîm cyflwyno arbenigol y BBC.

Nododd *Rhyfel y Falklands: Nôl i Faes y Frwydr*, rhaglen ddogfen wefreiddiol gan adran ffeithiol BBC Cymru, 30 mlynedd ers rhyfel y Falklands.

1. *Casualty* yn ei gartref newydd ym Mhorth y Rhath
2. Stryd fawr newydd Cwmderi ym Mhorth y Rhath



## BBC Radio Wales

Cyflwynodd BBC Radio Wales ystod eang o raglenni oedd yn adlewyrchu bywydau pobl ledled Cymru.

Gydag etholiadau'r Cynulliad yng Nghymru bu elfennau newyddion allweddol yr orsaf, *Good Morning Wales* a *Good Evening Wales*, yn ogystal â *BBC Radio Wales Phone-In* Jason Mohammad, yn teithio'r wlad i weld pa faterion oedd flaenaf ym marn gwrandawyr cyn iddynt fwrw eu pleidlais. Yn ei thymor *Learning Lessons*, fe dreuliodd yr orsaf hefyd wythnos yn trafod safonau academaidd ym myd addysg Cymru.

Anfonodd yr orsaf dîm i Seland Newydd er mwyn dilyn hynt Cymru yn rownd gyn-derfynol Cwpan Rygbi'r Byd ac i Wembley lle daeth Dinas Abertawe yn dîm pêl-droed cyntaf Cymru i fynd i'r Uwch Gynghrair.

Cryfhaodd BBC Radio Wales ei hymrwymiad i gerddoriaeth Gymreig drwy gyplysu rhaglenni Bethan Elfyn ac Adam Walton ar nos Sadwrn, a chyflwyno sioe newydd, *Beverley Humphreys' World of Music*, sy'n canolbwyntio ar ffurfiau eraill o gerddoriaeth yng Nghymru. Treuliodd yr orsaf ddiwrnod gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC hefyd, cyn cyngerdd a gomisiynwyd yn arbennig i nodi dechrau cystadleuaeth Chwe Gwlad 2012.

A bu drama yn rhan bwysig o arlwy BBC Radio Wales, yn gymysgedd o gomisiynau newydd a chyfle o'r newydd i wrando ar rai o'r dramâu a gynhyrchwyd ar gyfer BBC Radio 4 gan BBC Cymru. Adeg y Nadolig, fe gomisiynodd yr orsaf *O Little Town of Aberystwyth*, antur Nadoligaidd gan yr awdur cwlt Malcolm Pryce.

Darlledwyd tua 200 awr o raglenni dogfen ar yr orsaf yn ystod y flwyddyn. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd *The Mousetrap and Me*, rhaglen am ofal maeth trist dyn o Gasnewydd. Ysgogodd ei hanes ddrama enwog Agatha Christie, ac enillodd y rhaglen ddogfen ddwy wobr.

Roy Noble yn darlledu yn ystod BBC Radio Wales Music Day



## BBC Radio Cymru

Allbwn newyddion a materion cyfoes sy'n parhau i lywio agenda'r orsaf. Darparodd rhaglenni fel *Post Cyntaf, Taro'r Post, Post Prynhawn, Dau o'r Bae a Manylu* olwg a dadansoddiad cynhwysfawr o straeon Cymreig, y DU a thu hwnt.


Fis Chwefror, fe nododd wythnos drawiadol *Tynged yr Iaith,* 50 mlynedd ers darlith radio Saunders Lewis yn 1962. Darlledwyd pump o ddarlithoedd cyfoes byr gan ffigyrau cyhoeddus amlwg i ysgogi trafodaeth am ddyfodol yr iaith.

Mae *Dafydd a Caryl* yn parhau i greu argraff, a'u sioe frecwast 8:30am yw hoff raglen y gynulleidfa bellach. Mae Dai Jones gydag *Ar Eich Cais* a *John ac Alun* yn parhau i ddenu cyfran fawr o'r gynulleidfa ar gyfer eu sioeau ar nos Sul.

Darlledodd Gwilym Owen ei raglen wythnosol am y tro olaf yn ystod haf 2011, a chafodd ei yrfa ei chrisialu mewn rhaglen arbennig yn yr Eisteddfod Genedlaethol wedi'i chyflwyno gan Guto Harri. Trosglwyddodd Gerallt Lloyd Owen gadair y Meuryn i Ceri Wyn Jones, ac ym mis Hydref, dychwelodd Dylan Iorwerth i'r orsaf gyda'i gyfres drafod *Dan yr Wyneb*.

Ymysg uchafbwyntiau chwaraeon eleni roedd sylwebaeth fyw o Gwpan Rygbi'r Byd a sylw i gystadleuaeth y Chwe Gwlad ac ennill y Gamp Lawn. Datblygiad arall yn ystod y flwyddyn oedd y darllediad rheolaidd o gemau cartref Dinas Abertawe yn yr Uwch gynghrair – naill ai ledled Cymru neu yn ardal Abertawe a Chaerfyrddin yn unig.

Ymysg uchafbwyntiau rhaglenni dogfen yr orsaf eleni yr oedd *Cymry ar Brawf – Y Tarw Scotch* a 9/11 *Ysgwyd y Byd*. Enwebwyd y ddwy ar gyfer Gwobrau'r Cyfryngau Celtaidd – felly hefyd yr orsaf ei hun.

1


2


1. *Tynged yr Iaith* – Saunders Lewis
2. *Post Cyntaf* – Garry Owen a Nia Thomas




## Rhyngweithiol

Defnyddiwyd gwefannau BBC Cymru gan 2.4 miliwn o ddefnyddwyr wythnosol yn 2011/12. Cafodd hyn ei yrru gan straeon amlwg fel marwolaeth Gary Speed, damwain pwll Gleision, yr achos llys yn dilyn y llofruddiaeth mis mêl yn Antigua a'r drafodaeth pan gaewyd twnel Brynglas ar yr M4 yn dilyn tân lori mawr.

Rhoddwyd sylw cynhwysfawr i Gwpan Rygbi'r Byd: dilynodd y colofnydd newydd Shane Williams hynt Cymru wrth ennill Y Gamp Lawn yn 2012, gan ateb cwestiynau a anfonwyd gan y gynulleidfa. Ychwanegwyd at ein sylw i rygbi menywod Cymru gan y colofnydd Non Evans – sgoriwr y nifer uchaf o geisiau dros Gymru. Bu pêl-droed yn ganolog o hyd a rhoddodd dychweliad Dinas Abertawe i'r brig hwb i'r cynnwys a'r cynulleidfaoedd. Yn y cyfamser, bu'r cyfnod cyn y gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn allweddol i'r arlwy ar-lein, gan gynnwys blogiau gan y beiciwr Olympaidd Geraint Thomas. Cafodd gwefan BBC Chwaraeon ei lansio ar ei newydd wedd yn Chwefror 2012 gyda dyluniadau newydd ar gyfer y rhan fwyaf o'r tudalennau a gynhyrchir yng Nghymru.

Cafodd cynnwys dysgu ei lansio'n arbennig ar gyfer y cwricwlwm cynradd ac uwchradd yng Nghymru, gan amrywio o *Wyddoniaeth 7-11* a *Mathemateg 5-7* yn Gymraeg, i *Bitesize* a *Dinasyddiaeth Ieuenctid* yn y ddwy iaith.

Bu gwefan *The Story of Wales* yn boblogaidd gyda'r gynulleidfa ac roedd arni gynnwys cyfryngau cymdeithasol newydd, nodweddion arbennig drwy'r botwm coch a dwy raglen ychwanegol a grëwyd i ysgolion.

Parhaodd cynyrchiadau'r rhwydwaith i dorri record gyda dros 3.5 miliwn yn defnyddio'r *Doctor Who Adventure Game* tra bu prosiect '*Script to Screen*' *Doctor Who* yn boblogaidd gydag ysgolion ledled y DU. Integreiddiodd *Sherlock* ddefnydd arloesol o ffonau symudol a chyfryngau cymdeithasol, a gwefan *The Sarah Jane Adventures* oedd un o berfformwyr gorau CBBC.

Gan edrych i'r dyfodol, caiff rhifyn Cymru o bbc.co.uk ei lansio'n fuan ac mae technolegau arloesol digidol newydd yn mynd rhagddynt i gyflenwi gwasanaethau BBC Cymru ar draws y pedair sgrîn (cyfrifiaduron, teledu sy'n cysylltu â'r we, ffonau clyfar a dyfeisiau llechi).

BBC National Orchestra of Wales

## Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

Parhaodd y Gerddorfa i gynnig ystod eang o gyngherddau ledled Cymru a thu hwnt. Cafodd Corws Cenedlaethol Cymreig y BBC hefyd flwyddyn brysur gyda deg o brosiectau – o *Symffoni Gothig* anferthol Havergal Brian yn Proms 2011, i fod yn rhan o gyngerdd dathlu *Music Nation* yn Neuadd Dewi Sant ym Mawrth 2012.

Bu cydweithio yn thema bwysig yng ngwaith y Gerddorfa eleni. Galluogodd *Music Nation* – rhagflaenydd Olympiad Diwylliannol 2012 – i gorau ieuenctid berfformio gyda'r Gerddorfa a'r Corws yn *Songs of the Earth*, gwaith a gomisiynwyd yn arbennig gan Karl Jenkins. Cafodd 50 o fyfyrwyr o Goleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru hefyd gyfle i chwarae gyda'r Gerddorfa.

Ar Ddydd Gŵyl Dewi 2012, gweithiodd disgyblion ysgolion cynradd o bob cwr o Gymru gyda'r Gerddorfa, gan arwain at gyngerdd arbennig. Parhaodd y Gerddorfa â'i gwaith pwysig gyda phlant a myfyrwyr o unedau ac ysgolion arbennig dan arweiniad yr *animateur* Andy Pidcock. I gofnodi'r prosiect, fe gynhyrchwyd DVD a CD arbennig i ddysgu cerdd anarbenigol mewn ysgolion cynradd ac arbennig. Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, cafodd y deunydd hwn ei ddosbarthu am ddim i bob ysgol o'r fath yng Nghymru.

Fel sefydliad partner i'r cwmni celfyddydol Arcomis, hwylusodd y gerddorfa yr Ŵyl Ffliwtiau Ryngwladol yn ei chartref, Neuadd Hoddinott y BBC yn Ebrill 2011. A chynhaliwyd gweithdy deuddydd arall ar gyfer cyfansoddwyr Cymreig ar y cyd â Chymdeithas Cerddoriaeth Cymru, Cyfansoddwyr Cymru a Tŷ Cerdd.

O fewn y BBC, amrywiodd y cydweithio o bortffolio o draciau sain gan gynnwys *Doctor Who, Great Barrier Reef, Human Planet* a *The Story of Wales*, a *Symphony*, cyfres arbennig o gyngherddau prynhawn ar gyfer cyfres BBC Four, ym mis Tachwedd 2011, i ddiwrnod Cerddorfa unigryw BBC Radio Wales yn Ionawr 2012, pan ddarlledodd yr orsaf ei rhaglenni o Neuadd Hoddinott yn ystod y dydd gyda chyfraniadau rheolaidd a bywiog oddi wrth y Gerddorfa!

Cyngerdd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC i ysgolion arbennig



# STRATEGAETH Y DYFODOL

Bu BBC Cymru Wales yn tanio dychymyg cenedl ers bron i 50 mlynedd. Mae ein hymdeimlad o genhadaeth mor gadarn ag erioed. BBC Cymru yw'r unig ddarlledwr sydd wedi ymrwymo i adlewyrchu ac adrodd am Gymru yn y ddwy iaith – ar draws pob platfform. Mae ei rôl fel gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig dros ben o ystyried dirywiad ffynonellau cyfryngau eraill yng Nghymru.

Un o'r heriau allweddol i BBC Cymru dros y pum mlynedd nesaf fydd sicrhau ei bod yn parhau i gyflawni'r rôl hanfodol yma, tra'n sicrhau gostyngiadau sylweddol i'r cyllidebau ar yr un pryd. Bydd setliad ffi'r drwydded 2010 yn arwain at ostyngiad o 16% yng ngwariant BBC Cymru ar gynnwys a gwasanaethau i Gymru dros y pum mlynedd nesaf.

Er y bydd cyrraedd targedau Delivering Quality First yn anodd heb os – gan arwain at golli rhai rhaglenni teledu a radio – ein nod fu diogelu'r allbwn sydd bwysicaf i gynulleidfaoedd a sicrhau ein bod yn parhau i fod y darlledwr sy'n ennyn yr ymddiriedaeth a'r gwerthfawrogiad mwyaf yng Nghymru.

Mae pedwar sylfaen yn llywio'r ffordd y mae BBC Cymru yn gwneud ei harbedion.

1




1. Prif Weinidog Cymru Carwyn Jones AC gyda (chwith i'r dde) Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales, a Mark Thompson, Cyfarwyddwr-Cyffredinol y BBC yn agor Porth y Rhath yn swyddogol
2. Y Senedd
3. Set *Casualty* yn ystod penwythnos agored Porth y Rhath
4. Betsan Powys a Vaughan Roderick

## a. Cefnogi ansawdd ac arbenigrwydd

Ar draws yr holl wasanaethau, bydd BBC Cymru yn canolbwyntio ar yr hyn a wnawn orau. Golyga hynny ddiogelu a chryfhau ansawdd ac arbenigrwydd ein rhaglenni a'n gwasanaethau ar adeg pan mae arian yn brin, drwy wneud dewisiadau anodd a cheisio mwy o arbedion o orbenion ac.

Bydd newyddiaduraeth o ansawdd yn parhau yn asgwrn cefn gwasanaeth y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru. Ein nod yw atgyfnerthu rôl y BBC fel y darparwr newyddion sy'n ennyn yr ymddiriedaeth mwyaf – drwy effeithlonrwydd cynyddol, gostyngiad yn yr allbwn ar adegau o'r dydd pan mae llai o wylwyr a gwrandawyr ar gael – a sicrhau mai ein newyddiaduraeth sy'n arwain o ran cywirdeb, bod yn ddi-duedd a gwreiddioldeb.

Bydd BBC Cymru yn diogelu buddsoddiadau mewn newyddiaduraeth yn y ddwy iaith a phob platfform, a chaiff swyddi gohebwyr ychwanegol eu creu i gryfhau'r sylw arbenigol a roddir i economeg a diwylliant. Bydd yr ymrwymiad cadarn i ddadansoddi ac adrodd am waith y sefydliadau datganoledig yn parhau, gyda rhagor o'r allbwn gwleidyddol yn cael ei integreiddio i'r gwasanaethau newyddion blaenllaw.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein rhaglenni teledu cyffredinol i Gymru yn cael fwy fyth o effaith drwy ddangos rhagor o allbwn ar BBC One Wales. I gefnogi'r nod hwn, cedwir y buddsoddiad mewn dramâu a rhaglenni dogfen nodwedd. Bydd y BBC yng Nghymru hefyd yn gweithio gyda thimau rhwydwaith y BBC ac S4C i ganfod cyfleoedd priodol ar gyfer cyd-gynyrchiadau sy'n gwneud y gorau o arian buddsoddi prinnach.

Bydd dau wasanaeth radio cenedlaethol y BBC yng Nghymru yn parhau i amlygu cerddoriaeth Gymreig newydd, buddsoddi mewn dramâu a chomedi, a chomisiynu rhaglenni celf wythnosol. Fodd bynnag, bydd gostyngiad o 25% mewn rhaglenni dogfen a rhaglenni nodwedd ar y ddau wasanaeth.









## b. Adlewyrchu a chynrychioli Cymru ar rwydweithiau DU y BBC

Fel rhan o'i chynlluniau dan Delivering Quality First, mae'r BBC yn benderfynol y dylai'r buddsoddi cynyddol yng nghynyrchiadau'r rhwydwaith yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf arwain at welliant yn y modd y caiff Cymru ei phortreadu a'i chynrychioli ar rwydweithiau'r DU. Mae rhai o'r bylchau mwyaf o ran cyflawni dibenion cyhoeddus y BBC yng Nghymru yn ymwneud â phortreadu Cymru gerbron gweddill y DU, a phortreadu cymunedau a diwylliant Cymru gerbron gweddill y DU.

Mae llawer o le i wella, ond mae proffil Cymru ar rwydweithiau'r DU wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf drwy gyfrwng llwyddiant cynyrchiadau fel *Torchwood, The Indian Doctor, The One Show, Rhod Gilbert's Work Experience* a *Gavin and Stacey* a chyfraniad Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC i Radio 3. Yn ogystal, mae cywirdeb sylw newyddion y rhwydwaith i Gymru wedi gwella'n sylweddol. Yn ystod y cyfnod nesaf, mae'r BBC yn disgwyl i gyfran gynyddol o raglenni a gynhyrchir i gynulleidfaoedd yng Nghymru gael eu dangos ar y sianeli ar draws y DU hefyd.

Bydd stiwdios Porth y Rhath yn caniatáu i ni barhau i ddatblygu enw da Cymru fel canolfan ddrama o'r radd flaenaf. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda chynhyrchwyr annibynnol yng Nghymru i gryfhau ein cyfraniad i rwydweithiau DU y BBC.

Dan gynigion Delivering Quality First mae'r BBC yn disgwyl i'r targed o 17% ar gyfer y gwariant ar gynyrchiadau teledu rhwydwaith yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gael ei gyrraedd ynghynt na'r dyddiad targed sef 2016, ac mae'n disgwyl y rhagorir ar y targed erbyn 2017. Dan y cynigion hyn, caiff cryfder Cymru fel safle allweddol ar gyfer cynyrchiadau dramâu mewnol ei gadw, a bydd ei chyfraniad i gynyrchiadau nodwedd a dogfennol y rhwydwaith yn tyfu.

[1] Astudiaeth olrhain cylch gorchwyl diben Ymddiriedolaeth y BBC 2010/11.





1. Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC
2. *Rhod Gilbert's Work Experience*

## c. Sicrhau mynediad i raglenni a gwasanaethau cenedlaethol

Ein nod yw sicrhau bod gan Gymru fan cyhoeddus agored a rhydd yn y byd digidol, lle gall cynulleidfaoedd fwynhau rhannu gwasanaethau a rhaglenni o ansawdd y BBC yn rhwydd. Gosoda hyn sialens ddyblyg; datrys y problemau dosbarthu presennol sy'n wynebu gwasanaethau teledu a radio, gan sicrhau hefyd y sylw ac amlygrwydd priodol – ar draws tirlun digidol sy'n ymrannu – i'r gwasanaethau rhyngweithiol a wnaed yng Nghymru ac ar ei chyfer; ar gyfrifiaduron, teledu rhyngrwyd, ffonau clyfar a dyfeisiau llechi.

Ar y teledu, byddwn yn lansio fersiwn manylder uwch (HD) o BBC One Wales erbyn diwedd 2012 ac yn cynnal y gwasanaeth BBC Two Wales SD (manylder safonol) tan o leiaf 2015. Ar y radio, bydd y BBC yn edrych ar lefelau cwmpasu isel BBC Radio Wales ar FM a'r ddau wasanaeth ar DAB, gan gynnal dadansoddiad diffiniol o gost/ manteision archwilio opsiynau pellach.

Yn y gofod rhyngweithiol, mae'r BBC wrthi'n datblygu rhifynnau 'cenhedloedd' o bbc.co.uk er mwyn helpu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys am Gymru yn rhwyddach ar bob platfform. Bydd y rhifynnau hyn yn darparu ffordd fwy effeithiol o gyhoeddi cynnwys perthnasol o fewn portffolio gwasanaethau rhyngweithiol i'r DU gyfan.



Stiwdios newydd Porth y Rhath

## d. Partneriaethau a chydweithredu

Mae'r BBC eisoes yn rhan annatod o'r bywyd cenedlaethol yng Nghymru, ac yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau a mudiadau cenedlaethol gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, S4C, Undeb Rygbi Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, y Brifysgol Agored ac Amgueddfa Cymru.

Gan adeiladu ar y sylfeini cadarn hyn, bydd BBC Cymru yn ceisio bod hyd yn oed yn fwy agored ac uchelgeisiol yn y modd y mae'n ymrwymo i bartneriaethau gydag eraill er budd cynulleidfaoedd a'r bywyd cenedlaethol yng Nghymru. Bydd partneriaethau'r dyfodol yn ceisio rhyddhau potensial creadigol llawn Cymru drwy ddylanwadu ar faint, nawdd, creadigrwydd, arloesedd a threftadaeth y BBC.

Byddwn yn canolbwyntio gweithgareddau partneriaethau fwyfwy ar gydweithio sy'n gallu:

- sicrhau effaith fesuradwy ar y gynulleidfa a/neu'r economi
- cynnig posibiliadau clir am gydweithio creadigol parhaus
- helpu i feithrin arbenigedd a doniau newydd, a helpu i gynyddu gallu diwylliannol neu gynhyrchiant Cymru

Yn ogystal, byddwn yn gweithio i gryfhau ein partneriaeth hirhoedlog gydag S4C drwy archwilio'r posibiliadau ar gyfer cydweithio ar draws meysydd nad ydynt yn olygyddol eu natur, gyda'r nod o ryddhau buddsoddiadau ychwanegol sylweddol ar gyfer cynnwys yn y ddwy iaith.

1

Pobol y Cwm

2



1. Cynhyrchir *Pobol y Cwm* ar gyfer S4C
2. Cynhyrchwyd *The Story of Wales* drwy weithio mewn partneriaeth

# PRIF FLAENORIAETHAU'R FLWYDDYN NESAF

- Byddwn yn cryfhau effaith ac arbenigedd gwasanaethau'r BBC i Gymru, ac yn gwella arbenigedd ac effaith ein newyddiaduraeth
- Byddwn yn gweithredu'r newidiadau golygyddol a gweithredol sy'n deillio o'r cynllun arbedion Delivering Quality First
- Byddwn yn lansio BBC One Wales HD ac yn asesu opsiynau newydd ar gyfer cryfhau cwmpas y ddwy orsaf genedlaethol
- Byddwn yn cryfhau ein partneriaeth gydag amrywiol gyrff cenedlaethol er mwyn archwilio ffyrdd newydd o gyflenwi gwerth cyhoeddus gyda'n gilydd
- Byddwn yn gweithio gydag S4C i sicrhau bod y trefniadau partneriaeth newydd yn rhoi gwir fanteision i gynulleidfaoedd yng Nghymru
- Byddwn yn cryfhau ein cyfraniad i ddrama rhwydwaith a chynhyrchiad rhaglenni dogfen a nodwedd, ar deledu a radio

# MANYLION CYSWLLT

Os oes gennych gwestiwn, sylw neu gŵyn am raglenni neu wasanaethau BBC Cymru Wales, neu unrhyw agwedd arall ar waith y BBC, cysylltwch â'r Uned Gwasanaethau Cynulleidfaoedd.

Bydd pob adborth yn cael ei gofrestru'n ofalus ac yn cael ei ddosbarthu'n rheolaidd i'r timau golygyddol a'r rheolwyr.

**Rhif ffôn**: 03703 500 700

Mae'r llinellau ar agor rhwng 9.30am a 7.30pm yn ystod yr wythnos (heblaw gwyliau banc). Ni fydd galwadau i'r rhif cyfradd Prydain gyfan 0370 yn costio mwy na galwadau i rifau daearyddol 01/02. Gallwn recordio galwadau at ddibenion hyfforddi.

**Gwefan:**
**www.bbc.co.uk/cymru/gwybodaeth**

**Ysgrifennwch at:**
Gwasanaethau Cynulleidfaoedd
BBC Cymru Wales
Bangor
LL57 2BY

**Cwynion:** am ragor o wybodaeth am broses gwyno'r BBC ac i gyflwyno cwyn ar-lein, ewch i
**www.bbc.co.uk/complaints**

# Y TÎM RHEOLI YNG NGHYMRU



Rhodri Talfan Davies,
Cyfarwyddwr
BBC Cymru Wales



Clare Hudson,
Pennaeth Cynyrchiadau
BBC Cymru Wales



Gareth Powell,
Prif Swyddog Gweithredol



Adrian Davies,
Pennaeth Rhaglenni a
Gwasanaethau Saesneg



Sian Gwynedd,
Pennaeth Rhaglenni a
Gwasanaethau Cymraeg



Mark O'Callaghan,
Pennaeth Newyddion
a Materion Cyfoes



Jude Gray,
Pennaeth Adnoddau
Dynol a Datblygu



Richard Thomas,
Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu
a Chynulleidfaoedd

**Cydnabyddiaeth a hawlfraint**
Mae'r lluniau a ddefnyddir yn © BBC neu yn cael eu defnyddio o dan dermau'r cytundeb PACT.

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y gwneir hynny mewn ffordd gywir nad yw'n gamarweiniol. Mae'n rhaid ei achredu i'r BBC.

**Dylunio**
luminous.co.uk

NATION SHALL SPEAK PEACE UNTO NATION

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London W1A 1AA
bbc.co.uk
© BBC 2012